

**Ymateb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i
Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: 'Taro'r Cydbwysedd Iawn: Cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg'**

Rwy'n falch o gael y cyfle i ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru 'Taro'r Cydbwysedd Iawn: Cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg'.

Yn fy ngwaith fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rwy'n ymchwilio i gwynion a wneir gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff yn fy awdurdodaeth sef, i bob pwrpas, yr holl sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned);
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (yn cynnwys meddygon teulu a deintyddion);
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai); a
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r cyrff y mae'n eu noddi.

Rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am wasanaethau gofal lliniarol a gofal cymdeithasol sydd wedi'u hariannu neu eu trefnu'n breifat.

Ar ben hynny, mae'n rhan o'm hawdurdodaeth i ystyried honiadau fod aelodau o gyrff llywodraeth leol wedi torri cod ymddygiad eu hawdurdod.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn awdurdod rhestredig yn Atodlen 3 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Rwyf hefyd wedi llofnodi Memorandwm Cydddealltwriaeth gyda Chomisiynydd y Gymraeg, ac mae fy swyddfa wedi ymgymryd â'r gwaith o ymchwilio i gwynion am Gynghorau Cymuned, yn ymwneud ag iaith, lle nad oes cynllun iaith ar waith.

Mae fy ymateb i'r ymgynghoriad hwn wedi'i gyfyngu i'r elfen cwynion yn y Papur Gwyn.

Mae targed Llywodraeth Cymru i gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn uchelgeisiol, a dylai hyn olygu bod yr holl adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r iaith yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl.

Ymddengys fod y system bresennol yn rhy fiwrocraataidd ac yn gymhleth a'i bod yn gallu bod yn wastraffus. Gallai hyn beryglu'r ewyllys da sydd tuag at yr iaith yn ogystal â defnyddio adnoddau y gellid eu defnyddio'n well i hyrwyddo'r Gymraeg a chreu siaradwyr Cymraeg newydd.

Y Llywodraeth ddylai benderfynu a yw'n briodol dod â'r maes rheoleiddio a hyrwyddo iaith ynghyd. Fodd bynnag, rwy'n credu y gallai ac y dylai'r broses delio â chwynion ddilyn trefniadau mewn meysydd datganoledig eraill, gan sicrhau nad y Llywodraeth na'r rheini a benodir gan y Llywodraeth sy'n ymchwilio i gwynion, ond yn hytrach corff gwbl annibynnol. Mae hyn yn gymorth i sicrhau bod y cyhoedd yn dal yn ymddiried yn y broses delio â chwynion.

Rwy'n croesawu'r ffaith fod Adran 75 yn nhrosolwg yr Ymgynghoriad yn cyfeirio at arferion da Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n rhoi cyfle, fel arfer, i gyrff ymchwilio ac ymateb yn y lle cyntaf. Mae'r ddogfen Iawn yn cyfeirio hefyd at bolisi Cwynion a Phryderon Enghreifftiol

Cymru. Yn fy marn i, byddai'r diwygio a gynigir yn arbed arian ac yn sicrhau hefyd bod arferion iaith da yn cael eu mabwysiadu'n fwy cyffredin. Ond, mae'n bwysig nodi hefyd bod fy mhwerau statudol yn rhoi'r disgresiwn i mi beidio â mynnu hefyd am gyfeirio o'r fath at y corff y derbynnir cwyn yn ei gylich os ydw i o'r farn na fyddai hynny'n briodol. Bydd sefyllfa debyg o ran cwynion am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yn caniatáu disgresiwn mewn achosion priodol.

Mae nifer o'r materion yr ymchwiliwyd iddynt, ac y cyfeiriwyd atynt yn y ddogfen ymgynghori, yn ymddangos yn ddibwys, ac yn fy marn i byddai'n fwy priodol delio â'r rhain drwy drefn Datrys yn Gynnar. Mae fy swyddfa wedi cytuno ar 287 o ddatrysiadau cynnar neu setliadau gwirfoddol yn 2016/17, cynnydd o 26% ers 2015/16. Yn sgil hyn, llwyddwyd i osgoi talu costau ymchwiliad, a chynnig canlyniad effeithiol ac amserol i'r achwynydd hefyd.

Mae fy awdurdodaeth wedi'i sefydlu cyn awdurdodaeth Comisiynydd y Gymraeg. Nid wyf yn credu felly y byddai Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn mynnu unrhyw ddiwygiad statudol er mwyn caniatáu i'm swyddfa ymchwilio i gwynion ynghylch y Gymraeg yn erbyn cyrff cyhoeddus. Ar ben hynny, mae adran 8 (3) o'r Ddeddf yn nodi bod unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg neu unrhyw agwedd ar ddiwylliant Cymru yn cael ei chyflawni mewn perthynas â Chymru, yn rhan o'm hawdurdodaeth. Gan fod swydd Comisiynydd y Gymraeg wedi cael ei sefydlu wedyn, mae cwynion yn ymwneud â'r Gymraeg wedi cael eu cyfeirio at Gomisiynydd y Gymraeg yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cyfeiriwyd ato uchod ac er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu.

Er y byddai'n gwneud synnwyr i faterion yn ymwneud â'r Gymraeg ddilyn y broses dau gam a drafodwyd uchod, nid wyf yn credu y dylwn fod yn rhan o'r broses sy'n penderfynu pa gosb y dylid ei rhoi. Y Comisiwn/Comisiynydd ddylai benderfynu ynghylch hyn o hyd, gydag apeliadau'n cael eu hystyried gan y Tribiwnlys. Yn unol â'r trefniadau hyn, byddai fy rôl yn debyg i'r hyn a wnaif mewn achosion Cod Ymddygiad, lle mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi pwerau i'm swyddfa gynnal yr ymchwiliad ond bod unrhyw gosb yn cael ei rhoi gan naill ai'r pwyllgor safonau neu gan Banel Dyfarnu Cymru.

Er bod fy mhwerau'n caniatáu i mi ymchwilio i ddarparwyr gofal preifat, os bwriedir cynnwys cwmnïau cyfleustodau preifat yn rhan o'm hawdurdodaeth, rwy'n credu y byddai hyn yn arwain at newid sylweddol yn fy awdurdodaeth ac y byddai angen aildrafftio Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

I grynhoi, pe byddai Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ddiwygio, byddwn yn argymhell gweithredu fel a ganlyn:

- Bod cwynion ynghylch materion Cymraeg yn dilyn y drefn dau gam a ddisgwylir mewn cwynion eraill am faterion datganoledig.
- Bod fy swyddfa yn cael gwneud penderfyniadau yn ôl disgresiwn i gychwyn lle y bo hynny'n briodol.
- Bod prosesau Datrys yn Gynnar yn cael eu defnyddio i greu'r effaith orau bosibl.
- Dylai cwynion heb eu datrys sy'n weddill ddod i'm swyddfa.
- Mai dim ond ymchwilio fyddai rôl fy swydd.
- Os bydd angen cosbi corff am ei weithredoedd, mater i'r Comisiwn/Comisiynydd fyddai hyn o hyd. Byddai'r Tribiwnlys yn parhau yn ei rôl i ystyried apeliadau ar gyfer gosod safonau neu gosbau.

Manteision

- **Arbed cryn dipyn o arian cyhoeddus**
- **Adlewyrchu'r arfer gorau fel sy'n bodoli yng ngwlad y Basg a Chatalonia, lle mae gan yr ombwdsmyrn yn yr ardaloedd hynny awdurdodaeth lawn dros gwynion yn ymwneud ag iaith.**
- **Defnyddio arfer gorau yn rhan ganolog wrth ddelio â chwynion gan sicrhau bod y cyhoedd yn dal yn ymddiried yn y broses.**
- **Mae datrys cwynion yn gynnar yn cynnig ateb effeithiol ac amserol i'r achwynwyr.**

Os bydd yr awgrymiadau hyn o ddiddordeb, byddwn yn hapus eu trafod gyda chi a/neu eich swyddogion.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Medi 2017

.....

Copi i Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg

Simon Thomas AC, Cadeirydd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru